



Cylchdaith Bae West Angle, Sir Benfro

Bydd y gylchdaith hon yn eich tywys ar hyd glan ogleddol ac anghysbell Penrhyn Angle ar lwybr glaswelltog hamddenol sy'n addas i sgwteri symud a rhai cadeiriau olwyn.

"Mae golygfeydd bendigedig o ddyfrffordd Aberdaugleddau i'w cael ar y daith gerdded hon, ynghyd â manau braf i gymryd seibiant i werthfawrogi'r arfordir anhygoel."

Theresa Nolan, Swyddog Llwybr Arfordir Cymru

Dechrau a Diwedd:

Maes parcio traeth Bae West Angle (cylchdaith).

Pellter:

4 milltir/6km.

Ar hyd y ffordd...

Mae gan Fae West Angle draeth tywodlyd â phyllau glan môr o'i amgylch y gellir eu harchwilio – chwiliwch am y seren fôr glustog brin sy'n byw yn y bae.

O'r traeth, mae Llwybr Arfordir Cymru yn dilyn y clogwyni tywodfaen coch tua'r gogledd nes cyrraedd golygfan sy'n edrych ar draws Ynys Thorne, lle ceir caer o Oes Fictoria.

Mae'n un o blith saith sy'n dyddio o ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac a adeiladwyd i amddiffyn Aberdaugleddau – sef un o borthladdoedd naturiol gorau'r byd – rhag ymosodiadau gan Ffrainc. Yn y diwedd, ni wnaeth y Ffrancwyr ymosod, a dechreuwyd galw'r caerau'n Ffug-gestyll Palmerston, ar ôl y Prif Weinidog a'u comisiynodd.

Wrth i chi fynd yn eich blaen ar hyd y llwybr, fe ddewch ar draws Caer Bae'r Capel, sef un arall o ffug-gestyll Palmerston. Heddiw, mae'r adeilad yn amgueddfa lle ceir offer a hen arfau sy'n deillio o'r cyfnod pan arferai'r gaer fod yn safle mitwrol.

Os byddwch angen rhywfaint o luniaeth, mae yno gaffi sy'n gwerthu diodydd, byrbrydau a phrydau ysgafn. Os ewch yn eich blaen heibio i orsaf y bad achub, byddwch yn cyrraedd Bae Angle, sef ehangder o fwd a thywod lle ceir toreh o adar hirgoes fel piod môr a gylfiniod.

O'r fan hon, ni fyddwch fawr o dro â cherdded trwy'r pentref ar hyd y B4320 yn ôl at eich man cychwyn ym Mae West Angle.

Angen gwybod:

Ceir toiledau a chaffi ym maes parcio traeth West Angle, ynghyd â dwy dafarn yn y pentref.

Hefyd, gallwch gyrraedd Angle trwy ddefnyddio gwasanaeth bysiau 'Gwibfws yr Arfordir' o Benfro.

Edrychwch ar wefan Sir Benfro i gael amseroedd a llwybrau bysiau: www.pembrokeshire.gov.uk/bus-routes